

Area 43

Gwybodaeth, Hyfforddiant, Cefnogaeth a Chwmsela i Bobl Ifanc
Information, Training, Support & Counselling for Young People

Independent Counselling Service



- 0800 0385778
01239 614566
- area43.co.uk
- counselling@area43.co.uk
- 1 Pont Y Cleifion
Cardigan, Ceredigion SA43 1DW

GWYBODAETH CWNSELA I RIENI A GOFALWYR AREA 43

Beth yw Cwnsela Annibynnol ar Sail Ysgolion?

Y cyfle i siarad am bethau sydd o bryder i blentyn neu berson ifanc, yn gyfrinachol, gyda chwmsler cymwys. Mae'r hyn a drafodir yn dibynnu ar yr unigolyn, ond mae themâu cyffredin yn straen, perthnasau, newid, colled a digwyddiadau trallodus, trawmatig.

Beth mae Cwnsler yn ei wneud?

Caiff cwnsleriaid wedi eu hyfforddi i wrando heb farnu ac i helpu pobl i ddatrys eu meddyliau a'u teimladau am beth bynnag sy'n eu poeni.

Pwy ydy'r Cwnsleriaid?

Maent yn broffesiynol gymwys ac yn gwnsleriaid gwybodus sydd â phrofiad o weithio gyda phlant a phobl ifanc. Caiff yr holl gwnsleriaid eu cyflogi a'u rheoli gan Area 43, sy'n elusen annibynnol.

Pam cael Cwnsleriaid mewn ysgol?

Daw cwnsela ar sail ysgolion â chwmsela i blant a phobl ifanc mewn lle sy'n gyfarwydd, diogel a sicr. Os ydy plant a phobl ifanc yn gallu derbyn cefnogaeth emosiynol gan berson proffesiynol cymwys byddant yn cael cyfle gwell i gyflawni eu potensial.

Pa mor hir fydd y cwnsela?

Efallai bydd cwnsela am rai sesiynau, neu am gyfnod hirach. Caiff ei adolygu'n rheolaidd rhwng y cwnsler a'r plentyn neu berson ifanc.

Ble a phryd mae hyn yn digwydd?

Fel arfer mewn ystafell fechan, breifat yn ysgol eich plentyn neu yn yr ysgol uwchradd mae eich plentyn yn mynd i'w mynychu (ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6), bydd hyn yn digwydd yn ystod diwrnod ysgol. Gall sesiynau fod fyny hyd at bumdeg munud (yn dibynnu ar yr amgylchiadau) a gall amserau apwyntiad amrywio fel nad yw amser yn cael ei golli oddi ar unrhyw un pwn.

A ydyw'n gyfrinachol?

Nodwedd allweddol o'n gwasanaethau yw bod y wybodaeth a drafodwyd yn y sesiwn cwnsela yn cael ei drin yn gyfrinachol. Mae cwnsela yn amser pan mae'n OCE i siarad am bryderon heb boeni eu bod yn cael eu trafod yn rhywle arall. Mae hyn yn cynnwys dim rhannu gwaith gyda rhieni, onid ydy'r plentyn neu berson ifanc yn gofyn am hyn neu'n rhoi'r hawl am hyn. Deallwn gall hyn fod yn anodd i rieni i'w dderbyn ar adegau, ond mae sicrhau cyfrinachedd yn hanfodol er mwyn sefydlu ffydd fel bod y plant a'r bobl ifanc yn teimlo'n hyderus i siarad yn agored ac yn rhydd am yr hyn sydd yn eu poeni.

Er hynny, os ydy disgybl yn ymddangos i fod at risg o niwed difrifol efallai y bydd hi'n briodol i gael cymorth oddi wrth asiantaethau eraill i'w cadw nhw'n ddiogel. Byddai'r cwnsler yn bwriadu trafod hyn yn gyntaf gyda'r disgybl.

Mae pob un cwnsler yn derbyn goruchwyliaeth glinigol o'i gwaith gyda phobl ifanc, i sicrhau ansawdd ei gwaith. Mae'r broses yma'n gwbl ddiennw, ni chaiff y plentyn neu berson ifanc ei adnabod drwy enw.

Yn Gweithio mewn Partneriaeth gyda
Working in Partnership with



Area 43

Gwybodaeth, Hyfforddiant, Cefnogaeth a Chwmsela i Bobl Ifanc
Information, Training, Support & Counselling for Young People

Independent Counselling Service



- 0800 0385778
01239 614566
- area43.co.uk
- counselling@area43.co.uk
- 1 Pont Y Cleifion
Cardigan, Ceredigion SA43 1DW

Beth os ydy hi/fe yn cael Cwmsela?

Mae'r penderfyniad o pun ai a chymryd y cynnig o gwmsela yn gwbl wirfoddol i blant a phobl ifanc, yn union fel y byddai ar gyfer oedolyn.

A fedraf gefnogi'r gwaith Cwmsela?

Gallwch, ac rydym yn croesawu hyn. Mae ein profiad yn dangos mai'r peth mwyaf defnyddiol gall rhiant ei wneud yw dangos ei fod yn derbyn cwmsela fel gweithgaredd cyffredin a defnyddiol, i ddangos diddordeb os ydy ei mab/merch yn dymuno siarad amdano, ond nid i'w gorfodi hwy os nad ydynt eisiau. Rydym yn cydnabod nad tasg hawdd ydy hyn a'i bod yn naturiol i rieni i deimlo'n ofidus am beth gall cael ei ddweud yn y sesiynau. Ein gobaith bob amser ydy y bydd siarad gyda chwmsler yn arwain at siarad mwy agored gyda rhieni a theuluoedd, er efallai bydd angen caniatáu bach mwy o amser i hyn i ddigwydd.

Os ydy fy mhlentyn am weld Cwmsler, a ydy hynny'n meddwl fy mod yn methu fel rhiant?

Nid o gwbl! Rydym oll yn cael profiad o achlysuron pan mae'n teimlo'n galed i siarad gyda'r rheiny sy'n fwyaf agos i ni am y pethau sy'n eu poeni ni. Yn aml, mae hyn oherwydd nad ydym am boeni'r rheiny yr ydym yn eu caru fwyaf, neu oherwydd mae angen cymorth arnom i feddwl am bethau gyda rhywun sydd y tu allan i'r teulu. Ni fydd y Cwmsler yn beirniadu y chi na'ch plentyn, ond yn chwilio am gymorth i ddarganfod eu ffordd drwy beth bynnag sy'n eu poeni hwy.

Sut caiff cyfeiriadau eu gwneud i'r Gwasanaeth Cwmsela?

Gall cyfeiriadau eu gwneud drwy system fugeiliol yr ysgol neu Brifathro eich plentyn. Er hynny, gall y cais ddod oddi wrthych chi neu eich plentyn sy'n gallu hunangyfeirio'n uniongyrchol i'r Rheolwr Gwasanaethau Cwmsela yn Area 43. I'r mwyafrif o blant mewn ysgolion cynradd mae angen hawl ysgrifenedig gan riant/gwarchodwr cyn gall cwmsela ddechrau.

Dulliau Gweithredu Gwarchod Data

Mae Area 43 yn cydymffurfio â holl reoliadau Gwarchod Data ac Amddiffyn Plant & Diogelu cyfoes. Caiff gwybodaeth am yr holl waith cwmsela sy'n cael ei wneud gan ein staff ei gadw'n ddiogel gan y Gwasanaeth Cwmsela; nid yw Area 43 yn dal gwybodaeth y byddai modd adnabod unigolion, ond fe allai cyfrinachedd ei dorri pe fyddai pryderon am Amddiffyn Plant yn cael eu hadnabod.

Gwerthusiad

Wedi i'r cwmsela ddod i ben, caiff eich plentyn ffurflen werthuso y gall ei llenwi'n gwbl anhysbys a'i dychwelyd i'r Rheolwr Gwasanaethau Cwmsela'n uniongyrchol heb i'w cwmsler weld beth maent wedi ei ysgrifennu. Bydd hyn yn rhoi gwybod i ni pa mor dda yr ydym yn helpu'r plant a'r bobl ifanc yr ydym yn eu gweld.

Canmoliaethau neu Gwynion

Os yr ydych yn dymuno mynegi canmoliaethau yn ymwneud â'r Gwasanaeth Cwmsela Annibynnol ar Sail Ysgolion, neu os oes unrhyw achos o gwyn, mae croeso i chi neu eich plentyn gysylltu â'r Cwmsler neu Reolwr Gwasanaeth Area 43 a fydd yn ceisio datrys unrhyw faterion o bryder.

Os wedi darllen y wybodaeth yma, mae gennych fwy o gwestiynau, yna cysylltwch â Rheolwr Gwasanaeth Cwmsela yn Area 43

Yn Gweithio mewn Partneriaeth gyda
Working in Partnership with

